**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**PARTNERIAETHAU'R SECTOR CYHOEDDUS A'R FENTER CYLLID PREIFAT (PSC/MCP) YNG NGHYMRU – YSTYRIED Y MATERION A GEIR YN Y PAPUR TRAFOD A YSTYRIWYD YN Y CYFARFOD LLAWN AR 5 RHAGFYR**

1. Ar 5 Rhagfyr 2000, gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad i'r Cynulliad ynghylch yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad PSC/MCP ('yr Ymgynghoriad').

2. Gofynnodd y Gweinidog am gymorth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn ystyried sut i ddatblygu'r ymatebion cychwynnol hynny gyda phartneriaid y Cynulliad.

3. Ceir copi o'r Ymgynghoriad cychwynnol yn **Atodiad 1**. Ceir copi o naratif y Cyfarfod Llawn yn **Atodiad 2**.

4. Prif orchwyl y Pwyllgor yw cynnig ei sylwadau ar y canlynol:

- dyfodol y rowndiau bidio am Gredyd MCP ar gyfer prosiectau MCP Awdurdodau Lleol;
- hyrwyddo rowndiau bidio ar gyfer prosiectau tai cymdeithasol;
- y blaenoriaethau wrth ddethol prosiectau yn y dyfodol;
- y fformat mwyaf effeithlon ar gyfer cyflwyno bidiau yn y dyfodol a rheoli'r modd y dyfernir Credyd MCP.